

Ni yw RNID: yr elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r 18 miliwn o bobl yn y DU sy'n fyddar, sydd â cholled clyw neu dinitws.

Gyda'n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar y gwahaniaethu a wynebwr gan ein cymunedau, yn helpu pobl i glywed yn well nawr, ac yn ariannu ymchwil o'r radd flaenaf i adfer clyw a thawelu tinitws.

Os oes angen gwybodaeth a chymorth cyfrinachol a diduedd arnoch chi, neu rywun agos atoch, cysylltwch â RNID:



Siaradwch â ni trwy ein gwefan. Gallwch ddarganfod hefyd sut i gyfranogi wrth wirfoddoli, ymgyrchu neu godi arian i RNID: www.rnid.org.uk



Ffôn: 0808 808 0123



E-bost: contact@rnid.org.uk



Bwciwch alwad fideo BSL trwy ein partneriaid yn Sign Live: crëwch gyfrif ar wefan SignLive neu lawr lwythwch ap SignLive ar gyfer Android neu ap SignLive ar gyfer iOS



SMS/Neges Destun: 07360 268988



Relay UK: 18001 yna 0808 808 0123



Ysgrifennwch at: RNID, 126 Fairlie Road, Slough, Berkshire, SL1 4PY



Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws



RNID-Community-Letter-100924



Cefnogi pobl fyddar,
sydd â cholled clyw
neu dinitws

**DOES
MAE
OTS**



"Un o'r pethau gwaethaf yw pan fydd rhywun wedi dweud rhywbeth a fy mod i heb ei glywed, a phan fyddaf yn gofyn iddynt ei ailadrodd maen nhw'n dweud 'O does dim ots'. Efallai nad oedd o bwys iddyn nhw ar y pryd, ond mae'n gwneud i mi deimlo nad oes ots amdanaf i."

Mae 18 miliwn o bobl fyddar a phobl â cholled clyw yn y DU. Am y tro cyntaf, mae ein hymchwil newydd pwysig wedi amlygu'r effaith y mae agweddau negyddol a diffyg dealltwriaeth yn ei chael ar ein cymunedau yn eu bywydau beunyddiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae dwy ran o dair o bobl fyddar a phobl â cholled clyw wedi profi agwedd negyddol gan eraill. Mae mwy na chwarter yn dweud eu bod yn cael eu hanwybyddu'n gyhoeddus gan y rhan fwyaf o bobl, ac os ydyn nhw'n colli'r sgwrs y tro cyntaf, mae miliynau'n cael eu diystyru, a dywedir wrthynt 'Does dim ots'.

Gwyddom nad yw'r mwyafrif o bobl yn gwybod sut i gyfathrebu â phobl fyddar a phobl â cholled clyw. Dangoswch 'Mae ots', a defnyddiwch y cynghorion gorau hyn ar sut i gynnwys pobl fyddar yn y sgwrs.

I gael gwybod mwy am ein hymgyrch, ac i gofrestru ar gyfer e-byst â fideos o ymadroddion BSL y gallwch eu dysgu a'u defnyddio, ewch i [rnid.org.uk/it-does-matter](https://www.rnid.org.uk/it-does-matter)

BETH ALLWCH CHI EI WNEUD

Rydym eisio i bawb deimlo'n hyderus wrth siarad â phobl fyddar a phobl â cholled clyw. Dyma rai cynghorion syml gan ein cymunedau:

MYNNWCH FY SYLW

Defnyddiwch ystumiau syml fel chwifio llaw i gael fy sylw.



WYNEBWCH FI

Wynebchwch fi pan fyddwch chi'n siarad â fi. Mae llawer o bobl yn dibynnu i ryw raddau ar ddarllen gwefusau i ddeall.



BYDDWCH YN AMYNEDDGAR

Peidiwch â bod ofn ailadrodd neu aralleirio, a rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol.



A PHEIDIWCH BYTH Â DWEUD: 'DOES DIM OTS'

Mae llawer mwy y gallwch ei wneud i helpu. Edrychwch i weld sut y gallwch gyfranogi a dysgu mwy.

PROFWCH EICH CLYW MEWN 3 MUNUD YN UNIG



GYDA'N
PRAWF
CLYW
AR-LEIN
AM DDM

[rnid.org.uk/check](https://www.rnid.org.uk/check)

